

## HYSBYSIAD STATUDOL

### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyfarwyddiaeth Addysg, Llawr 8 Llys Einion, Abertyleri, Blaenau Gwent, NP13 1DB.**

Hysbysir yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ar ôl ymgynghori gyda'r fath bersonau ag sydd angen, yn cynnig newid Ysgol Arbennig Pen y Cwm, Lon Strand Annealing, Glynebwy, Blaenau Gwent NP23 6AN ar gyfer bechgyn a merched 3-19 oed er mwyn ymestyn capasiti'r ysgol. Ar hyn o bryd caiff yr ysgol ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a bydd yn parhau felly. Ni fydd gan yr ysgol unrhyw gymeriad crefyddol enwadol.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae'r adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael yn:-

<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/council/consultations/proposal-to-extend-the-capacity-at-pen-y-cwm-special-school/>

Cynigir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2021. Mae Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent yn cynnig ymestyn capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 120 i 175 lle, yn weithredol o fis Medi 2021. Er mwyn hwyluso'r capasiti estynedig, bydd y Cyngor yn ailwampio'r amgylchedd dysgu presennol i greu gofodau ystafell ddisbarth ychwanegol a chyfleusterau cysylltiedig e.e. toiledau. Yn ogystal, ac ynghyd â hyn, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun hirdymor i gefnogi twf a datblygiad cyson.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fydd yr awdurdod derbyn drwy banel Anghenion Dysgu Ychwanegol y Cyngor. Capasiti newydd yr ysgol fydd 175 disgybl o oedran ystol statudol (4-10). mae gan yr ysgol hefyd ddarpariaeth Ôl 16 hyd at 19 mlwydd oed.

Darperir cludiant i ddisgyblion yn unol â pholisi'r Cyngor ar gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol. Mae'r Cyngor wedi sefydlu proses er mwyn asesu anghenion teithio plant a all fod angen cludiant ADY. Bydd disgyblion sydd angen cludiant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n byw:


- dros 1.5 milltir (ar gyfer rhai dan 8 mlwydd oed); a/neu
- dros 2 filltir (ar gyfer rhai rhwng 8-16 mlwydd oed)

o'u darpariaeth ADY addas agosaf yn cymhwyso'n awtomatig am gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol. \*Dylid nodi na ddarperir cludiant mewn achosion lle mae'r ysgol yn ddewis y rhiant ac nid y ddarpariaeth a benderfynwyd gan y Panel ADY.

Gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion o fewn cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig, sef erbyn 23 Gorffennaf 2021.

- Dylid anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost at [21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk).
- Dylid anfon gwrthwynebiadau mewn ysgrifen at Lynn Phillips, Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Llawr 8 Llys Einion, Abertyleri, Blaenau Gwent NP13 1DB.

Llofnodwyd



**Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.  
25 Mehefin 2021**

## NODYN ESBONIADOL

Mae Pen y Cwm yn Ysgol Arbennig yn darparu ar gyfer dysgwyr ar draws ystod oedran 3-19, gydag amrywiaeth eang o anableddau ac anawsterau yn amrywio o ddisgyblion gydag Anawsterau Dysgu Difrifol i Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog, Anhwylder ar y Sbectwm Awtistig, Nam ar y Golwg a Nam ar y Clyw. Mae'r ysgol yn darparu adeiladau a chyfleusterau hygyrch ar gyfer rhai sydd ag anabledd corfforol ynghyd ag anhawster dysgu.

Mae poblogaeth yr ysgol wedi tyfu gan tua 36% ers adleoli ym mis Tachwedd 2012. Fel canlyniad, mae'r gofod hyblyg sydd ar gael bellach yn brin iawn neu ddim ar gael o gwbl, a chafodd pob un o'r ardaloedd arbenigol (yn cynnwys yr ystafelloedd arbenigol ar gyfer addysgu a dysgu oedran Uwchradd) eu hailwampio i hwyluso gofodau addysgu cyffredinol ar gyfer disgyblion ychwanegol. Felly, mae llai o hyblygrwydd a gofod ar gael ym mhob un o'r cyfnodau (Cyfnod Sylfaen/Cynradd/Uwchradd/Ôl 16) o ran hyblygrwydd a gofod.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn **ddydd Llun 26 Ebrill 2021** a daeth i ben **ddydd Sul 6 Mehefin 2021**.

Felly, caiff y cynnig ei gyflwyno mewn 2 ran:

- Rhan 1, cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 120 i 175 lle i baratoi ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22, a fyddai'n cynnwys gwaith ffisegol i'r adeilad presennol yn cynnwys:
  - Adleoli'r safle Ôl 16 (yn cynnwys 3 ystafell ddosbarth, ystafell gyffredin, ystafell sgiliau bywyd, toiledau a chyfleusterau hylendid)
  - Adleoli'r ardal weinyddol a gofod swyddfa presennol (yn cynnwys ystafell staff, ystafell PPA, cyfleuster cynadleddau ac ystafell gyfarfod fach)
  - Creu 2 ystafell ddosbarth cynradd ychwanegol
  - Creu 1 ystafell ddosbarth uwchradd ychwanegol a chyfleusterau cysylltiedig
  - Ad-leoli'r ardal chwarae meddal i'r llawr daear
  - Ailddatblygu'r ystafell Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Rhan 2, datblygu cynllun hirdymor i sicrhau capasiti ychwanegol i hwyluso twf a datblygiad parhaus.

Mae'r adroddiad ymgynghori ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Mae mwy o wybodaeth ar y cynnig ar gael yma:

<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/council/consultations/proposal-to-extend-the-capacity-at-pen-y-cwm-special-school/>

## DIWEDD YR HYSBYSIAD